



---

# **Canllaw i Ddysgwyr: Apeliadau a chwynion ynghylch camymddwyn a chamweinyddu – Haf 2020**

**Beth i'w wneud os oes gennych bryderon neu  
gwestiynau am eich graddau?**

Awst 2020

---

# Cyflwyniad

Ddydd Llun 17 Awst, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg y byddai cymwysterau TGAU, Safon Uwch a Thystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru bellach yn cael eu dyfarnu ar sail graddau asesu canolfannau.

O ganlyniad i'r newid hwn yn y dull o ddyfarnu cymwysterau, bydd dysgwyr yng Nghymru yn awr yn cael y radd uchaf o blith gradd asesu'r ganolfan a'r radd wedi'i chyfrifo, ar gyfer cymwysterau TGAU, Safon UG a Thystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru. Ar gyfer Safon Uwch, bydd dysgwyr yn cael yr uchaf o blith eu gradd Safon UG, gradd asesu'r ganolfan a'r radd wedi'i chyfrifo.

Bydd y rhan fwyaf o ddysgwyr wedi derbyn eu graddau mewn pryd i symud ymlaen i astudiaeth bellach neu gyflogaeth. Efallai y byddwch yn dal i allu gwneud hyn hyd yn oed os na chawsoch chi'r radd yr oeddech yn gobeithio ei chael.

Mae **Rhan 1** o'r canllaw hwn yn rhoi gwybodaeth i ddysgwyr sydd wedi derbyn canlyniadau ar gyfer cymwysterau TGAU, Safon UG, Safon Uwch a Thystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru.

Mae **Rhan 2** yn rhoi gwybodaeth i ddysgwyr sydd wedi derbyn canlyniadau ar gyfer cymwysterau galwedigaethol.

# Rhan 1 Cymwysterau TGAU, Safon Uwch a Thystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru

Ar gyfer cymwysterau TGAU, UG, Safon Uwch a Thystysgrif Her Sgiliau (THS) Bagloriaeth Cymru eleni, byddwch naill ai'n derbyn gradd asesu eich canolfan (ceir manylion isod) neu eich gradd wedi'i chyfrifo (eich gradd safonedig), pa un bynnag sydd uwch. Ar gyfer cymwysterau Safon Uwch, byddwch naill ai'n derbyn gradd asesu eich canolfan, eich gradd wedi'i chyfrifo neu eich gradd Safon UG, pa un bynnag sydd uwch.

Gradd asesu'r ganolfan yw barn broffesiynol eich athrawon am y radd y byddech yn debygol o fod wedi'i chael pe bai eich arholiadau wedi cael eu cynnal.

Gofynnwyd i ysgolion a cholegau ddarparu gradd asesu canolfan<sup>1</sup> gyfer pob dysgwr ym mhob cymhwyster TGAU, Safon UG, Safon Uwch a THS yr oeddent yn bwriadu eu cymryd yr haf hwn, a threfn restrol o ddysgwyr yn ôl eu perfformiad disgwylidig. Gofynnwyd i ysgolion a cholegau ddefnyddio ystod o dystiolaeth wrth lunio'r barnau hyn.

Lle y byddai dysgwr anabl wedi cael addasiad rhesymol ar gyfer ei arholiadau, gofynnwyd i ganolfannau ystyried perfformiad tebygol y dysgwr gyda'r addasiad hwn ar waith. Mae addasiadau rhesymol yn newidiadau a wneir i asesiad neu i'r ffordd y mae asesiad yn cael ei gynnal sy'n lleihau neu'n dileu anfantais a achosir gan anabledd dysgwr. Mae eu hangen oherwydd gall rhai anabledau ei gwneud yn anos i ddysgwyr ddangos yr hyn y maent yn ei wybod ac yn gallu ei wneud mewn asesiad nag y byddai wedi bod pe na bai gan y dysgwr anabledd.

Mae'n ofynnol i ysgolion a cholegau gydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb (cyfreithiau). Mae hwn yn fesur diogelu arall yn y broses a ddefnyddiwyd eleni.

Roedd y barnau hyn yn sail i'r radd asesu a gyflwynwyd gan eich ysgol neu goleg i CBAC ar gyfer pob un o'ch pynciau. Roedd yn rhaid i ddau athro gytuno ar y graddau asesu a'r drefn restrol a ddarparwyd gan eich ysgol i CBAC ac roedd rhaid i bennaeth y ganolfan gymeradwyo'r wybodaeth fel cynrychiolaeth wirioneddol o'ch perfformiad.

Os oes gennych bryderon ynghylch sut y cynhyrchwyd eich graddau, dylai'r wybodaeth hon eich helpu i ddeall a oes gennych reswm dros wneud cwyn ynglŷn â chamymddwyn neu gamweinyddu (camwedd). Gallai hyn gynnwys os oes gennych bryderon ynghylch rhagfarn neu wahaniaethu. Mae yna bobl a all eich helpu gyda hyn. Gallwch siarad â'ch ysgol neu goleg, ac mae llinellau cymorth y gallwch eu galw am ragor o wybodaeth. Gallwch ddod o hyd i fanylion y rhain ar ddiwedd y canllaw hwn.

---

<sup>1</sup> <https://qualificationswales.org/media/5972/gwybodaeth-i-ganolfannau-ar-gyflwyno-graddau-asesu-canolfannau-fersiwn-2-18-mai-2020.pdf>

## Allaf i wneud apêl?

Hyd yn oed os ydych chi'n siomedig â'ch canlyniadau, efallai y byddwch yn dal i allu symud ymlaen i gam nesaf eich addysg neu gyflogaeth fel yr oeddech wedi bwriadu'i wneud. Os oes gennych bryderon ynghylch sut y cyfrifwyd eich graddau, dylech siarad â'ch ysgol neu goleg am eich opsiynau.

Mae'n bwysig cofio'r canlynol:

1. **Gallwch** ofyn i'ch ysgol neu goleg wirio a wnaeth wall wrth gyflwyno gwybodaeth i CBAC. Gallai gwallau gynnwys, er enghraifft, cymysgu dau fyfyrwr ag enwau tebyg, neu gopïo'r data anghywir ar ddamwain. Os bydd eich ysgol neu goleg yn canfod y gwnaed camgymeriad yn y wybodaeth a ddarparodd, gall ofyn i CBAC ei gywiro.
2. **Gall eich ysgol neu goleg** apelio i CBAC ar eich rhan os yw'n credu bod CBAC wedi gwneud camgymeriad wrth gyhoeddi eich graddau.
3. **Ni allwch** herio'r graddau asesu canolfan na'ch safle ar y drefn restrol a gyflwynwyd gan o dan broses apelio CBAC. Byddai'n rhaid i rywun sydd mewn sefyllfa well na'ch athrawon i farnu eich gradd debygol pe bai arholiadau wedi'u cynnal ymgymryd ag unrhyw apêl. O dan amgylchiadau unigryw'r haf hwn, nid ydym yn credu bod CBAC yn gallu cyflawni'r rôl hon.

Mae'n bwysig eich bod yn siarad â'ch ysgol neu goleg ynghylch a yw'n credu bod gennych reswm dros apelio. Rhaid i bob apêl gael ei gwneud gan yr ysgol neu'r coleg. Gall ymgeiswyr preifat apelio'n uniongyrchol i CBAC mewn amgylchiadau penodol (gweler ein [Datganiad Polisi Ymgeiswyr Preifat](#) i gael manylion pellach). Yr haf hwn, diogelir eich gradd, sy'n golygu na fydd yn gostwng i radd is o ganlyniad i apêl.

## Y dyddiad cau ar gyfer apelïadau yw 17 Medi 2020.

Os bydd eich ysgol neu goleg yn gwrthod cyflwyno apêl ar eich rhan, rhaid bod ganddynt broses ar waith i chi ofyn am adolygiad o'r penderfyniad hwnnw, fel bod rhywun arall yn eich canolfan yn ystyried eich cais. Dylech godi hyn yn gyntaf gyda'ch ysgol neu goleg.

Os hoffech gwyno nad oes gan eich ysgol neu goleg broses ar waith i chi wneud hyn, dylech ddilyn proses gwyno eich ysgol neu goleg yn y lle cyntaf. Os na ddatrysir eich cwyn, gallwch siarad â CBAC i gael arweiniad pellach.

Dylai eich ysgol neu goleg allu egluro sut y lluniwyd eu barn, a pha dystiolaeth yr oedd yn dibynnu arni. Hyd yn oed lle nad oes dystiolaeth yn dangos y gwnaed camgymeriad, gallai deall sut y lluniodd eich canolfan farn a pha dystiolaeth a ystyriodd, eich helpu i ddeall yn well y radd a roddwyd i chi.

Os ydych yn credu'i bod yn bosibl y gwnaed camgymeriad pan gyflwynodd eich ysgol neu goleg eich graddau asesu i CBAC neu pan gyhoeddodd CBAC eich canlyniad, dylech siarad â'ch ysgol

neu goleg yn gyntaf.

## **Gwneud cwyn am ragfarn, gwahaniaethu, camymddwyn neu gamweinyddu**

Ni allwch apelio oherwydd eich bod yn anghytuno â'r graddau asesu neu'r drefn restrol a roddwyd gan eich ysgol neu goleg. Fodd bynnag, efallai'ch bod yn pryderu bod eich graddau asesu neu eich safle ar y drefn restrol yn anghywir oherwydd eich bod yn credu bod pethau heblaw tystiolaeth am eich perfformiad academaidd wedi dylanwadu ar y farn.

Gwyddom fod pryderon gan rai dysgwyr, a grwpiau sy'n cynrychioli dysgwyr, y gallai rhagfarn neu wahaniaethu fod wedi dylanwadu ar rai graddau asesu canolfannau a safleoedd trefn restrol. Byddai achosion unigol o ragfarn neu wahaniaethu yn cael eu cymryd o ddifrif, a disgwyliwn iddynt fod yn brin.

Os effeithiodd rhagfarn neu wahaniaethu ar eich graddau asesu neu safle trefn restrol yr haf hwn, gallai hyn fod yn fath o gamymddwyn neu gamweinyddu (camwedd). Os credwch y gallai camymddwyn neu gamweinyddu fod wedi effeithio arnoch chi, dylech drafod hyn yn uniongyrchol â'ch ysgol neu goleg yn gyntaf a chodi cwyn drwy eu polisi cwynion. Os teimlwch nad yw eich pryderon wedi cael sylw, gallech wedyn ystyried codi eich pryderon ynghylch camymddwyn neu gamweinyddu gyda CBAC.

Mae'n bwysig cofio nad apêl fyddai hyn, ond yn hytrach honiad (cyhuddiad) bod achos o gamymddwyn neu gamweinyddu wedi digwydd mewn perthynas â graddau asesu'ch canolfan neu eich safle ar y drefn restrol. Byddai honiadau o'r fath yn ddifrifol ac yn cael eu cymryd o ddifrif. Gan y byddech yn gwneud honiad o gamymddwyn neu gamweinyddu, ni fyddai'r dyddiad cau ar gyfer apeliadau yn berthnasol i chi.

Er y byddai disgwyl i chi godi unrhyw bryderon gyda'ch ysgol neu goleg i ddechrau, os oes gennych dystiolaeth o gamymddwyn neu gamweinyddu gan eich ysgol neu goleg a bod gennych bryderon ynghylch codi hyn gyda hwy'n uniongyrchol yn y lle cyntaf, efallai y byddai'n briodol i chi drafod hyn yn uniongyrchol gyda CBAC yn lle hynny; gweler y manylion cyswllt ar ddiwedd y canllaw hwn.

## **Esbonio beth sy'n gwneud i chi feddwl bod achos o gamymddwyn neu gamweinyddu wedi digwydd**

Nid yw derbyn gradd sy'n is nag yr oeddech yn gobeithio'i chael neu'n ei disgwyl bob amser yn golygu y bu rhagfarn neu wahaniaethu. Ni fydd dweud wrth CBAC bod gradd asesu eich canolfan yn is nag yr oeddech yn credu'r oeddech yn ei haeddu yn ddigon i wneud i CBAC amau bod achos o gamymddwyn neu gamweinyddu wedi digwydd.

Er mwyn i'ch achos gael ei ystyried, bydd angen i chi ddangos rhywbeth penodol neu rywbeth annisgwyl, sy'n gofyn cael esboniad nad yw eich ysgol neu goleg wedi gallu ei roi.

## **Beth fydd CBAC yn ei wneud gyda'm honiad?**

Os bydd CBAC yn penderfynu bod ganddo sail resymol i amau y gallai achos o gamymddwyn neu gamweinyddu fod wedi digwydd mewn perthynas â graddau asesu'ch canolfan neu'ch safle ar y drefn restrol, bydd yn cynnal ymchwiliad i gasglu tystiolaeth fel y gall benderfynu a ddigwyddodd achos o gamymddwyn neu gamweinyddu mewn gwirionedd ai peidio.

Mae'n debygol y bydd CBAC yn adolygu eich cofnod academaidd, ac unrhyw dystiolaeth benodol arall a ddarparwch, a hefyd yn siarad â phennaeth eich ysgol neu goleg ac â'r athro rydych chi'n dweud sy'n gyfrifol am yr achos o gamymddwyn neu gamweinyddu. Gallant hefyd ddewis edrych ar unrhyw ddata perthnasol arall, a all gynnwys data hanesyddol.

Os bydd CBAC yn penderfynu y bu achos o gamymddwyn neu gamweinyddu, er enghraifft, oherwydd bod safbwyntiau gwahaniaethol wedi dylanwadu ar radd asesu'r ganolfan neu safle ar y drefn restrol, gall hyn arwain at ganlyniadau difrifol i'r athro dan sylw, felly bydd CBAC yn rhoi cyfle i'r athro roi esboniad os nad yw'n cytuno â'r honiad.

Os yw CBAC yn credu bod achos o gamymddwyn neu gamweinyddu wedi digwydd, bydd wedyn yn ystyried a oedd y canlyniadau a roddodd i chi a oedd yn ystyried y wybodaeth honno yn anghywir ac, os felly, a ddylai newid y canlyniadau hynny.

## Rhan 2: Apeliadau a chwynion ar gyfer Cymwysterau Galwedigaethol

Gan fod sawl math o gymhwyster galwedigaethol, a'u bod yn cyflawni ystod o ddibenion, nid ydynt i gyd yn cael eu trin yn yr un modd a gall y seiliau dros apelio amrywio.

P'un a ydych wedi derbyn gradd wedi'i chyfrifo, wedi cymryd asesiad wedi'i addasu neu fod eich asesiad wedi'i ohirio, os teimlwch na wnaeth y corff dyfarnu gymhwyso gweithdrefnau'n gyson neu na ddilynwyd gweithdrefnau'n briodol ac yn deg, dylech siarad â'ch ysgol neu goleg os credwch y gallai fod gennych reswm dros apelio.

Gall ysgolion a cholegau gyflwyno apêl ar eich rhan, ac mewn rhai achosion mae cyrff dyfarnu yn derbyn apeliadau'n uniongyrchol gan ddysgwyr. Gall ymgeiswyr preifat apelio'n uniongyrchol.

Rhaid i gyrff dyfarnu:

- ganiatáu amser rhesymol i ddysgwyr a chanolfannau benderfynu a ddylid gwneud cais am apêl, ac
- mae'n ofynnol iddynt gyhoeddi eu proses apelio ar eu gwefan.

Os ydych yn anhapus â'r ffordd y mae corff dyfarnu wedi delio â'ch apêl, gallwch [wneud cwyn i Cymwysterau Cymru](#).

Os oes gennych bryderon ynghylch rhagfarn, gwahaniaethu neu unrhyw beth arall sy'n awgrymu na wnaeth eich ysgol neu goleg ymddwyn â gofal neu onestrwydd wrth bennu gradd asesu'r ganolfan neu ddarparu tystiolaeth i'r corff dyfarnu, fel rheol dylech godi'r pryderon hyn gyda'ch ysgol neu goleg.

Mewn rhai achosion, efallai y byddai'n briodol codi'r pryderon hynny'n uniongyrchol gyda'r corff dyfarnu yn lle hynny. Rydym yn eich cynghori i edrych ar wefan y corff dyfarnu ar gyfer eich cymhwyster i gael rhagor o fanylion am apeliadau.

Efallai y byddwch yn penderfynu eich bod am gymryd asesiad ar y cyfle nesaf sydd ar gael, yn hytrach nag apelio. Ar gyfer llawer o gymwysterau galwedigaethol mae nifer o gyfleoedd asesu i'w cael eisoes drwy gydol y flwyddyn. Mae rhai cyrff dyfarnu yn darparu cyfleoedd asesu ychwanegol ar gyfer rhai cymwysterau – mae [adnodd esbonio cymwysterau ar-lein](#) Ofqual yn rhoi manylion ynghylch pryd y bydd y cyfleoedd asesu nesaf. Siaradwch â'ch ysgol neu goleg i weld a yw hyn yn berthnasol i chi a'ch cymhwyster.

Os nad ydych wedi cael canlyniad a'ch bod yn disgwyl cael un, dylech siarad yn gyntaf â'ch ysgol neu goleg.

# Cymorth a chefnogaeth

## Gyrfa Cymru

Beth bynnag oedd eich canlyniadau, gall Gweithio Cymru, a ddarperir gan Gyrfa Cymru, roi cymorth a chngor diduedd, am ddim i chi.

Mae Gyrfa Cymru'n parhau i ddarparu ei wasanaeth gyrfaoedd hanfodol dros y ffôn ([0800 0284844](tel:08000284844)), drwy sgwrs ar-lein ac ar e-bost.

Mae Gyrfa Cymru'n ymestyn amseroedd ei wasanaethau sgwrsio ar-lein a ffôn. O ddydd Mawrth 1 Medi, bydd tîm Cyswllt Gyrfa Cymru ar gael o ddydd Llun i ddydd lau rhwng 8am a 9pm, a dydd Gwener rhwng 9am a 4:30pm. Mae hyn yn golygu y bydd gennych fwy o hyblygrwydd i gysylltu â nhw ar adeg sy'n addas i chi.

Ffôn: [0800 028 4844](tel:08000284844)

Dydd Llun i ddydd lau: 9am tan 5pm, dydd Gwener: 9am tan 4:30pm

Neu, gofynnwch iddynt eich [galw yn ôl](#).

### [Sgwrs Ar-lein](#)

Sgwrsiwch â chynghorydd gan ddefnyddio negeseua gwib.

Dydd Llun i ddydd lau: 9am tan 5pm, dydd Gwener: 9am tan 4:30pm

[E-bostiach](#) a byddant yn ateb o fewn dau ddiwrnod gwaith.

## Cymwysterau Cymru

Os oes gennych gŵyn am gorff dyfarnu neu gymhwyster a reoleiddir, dylech gysylltu â'r corff dyfarnu yn y lle cyntaf.

Fodd bynnag, os na chawsoch lwyddiant ar ôl dilyn gweithdrefn gwyno'r corff dyfarnu a'ch bod yn parhau i fod yn anfodlon, dylech ddwyn y gŵyn i'n sylw.

### [Polisi Cwynion am Gyrrff Dyfarnu](#)

Os hoffech wneud cynw, anfonwch e-bost at [hysbysu@cymwysteraucymru.org](mailto:hysbysu@cymwysteraucymru.org) a nodwch "Cwyn am gorff dyfarnu" yn nheitol eich e-bost.

## CBAC

Cysylltwch â CBAC i fynegi cynw os ydych yn credu bod gennych dystiolaeth o gamymddwyn.

**029 2026 5000**



[malpractice@wjec.co.uk](mailto:malpractice@wjec.co.uk)

[www.cbac.co.uk](http://www.cbac.co.uk)

## ***Cyngor a chymorth ar gydraddoldeb***

Gallwch gysylltu â'r Gwasanaeth Cyngori a Chymorth Cydraddoldeb (EASS) i gael cyngor ar honiadau o wahaniaethu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae EASS yn cynghori ac yn cynorthwyo unigolion ar faterion sy'n ymwneud â chydraddoldeb a hawliau dynol:

[www.equalityadvisoryservice.com](http://www.equalityadvisoryservice.com).